DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canolfan Ddeintyddol Whitecross

12 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3899-6
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 7
   - Profiad y Claf ........ 7
   - Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 10
   - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
   - Ansawdd yr Amgylchedd ........ 16
6. Y Camau Nesaf ........ 18
   - Atodiad A ........ 19

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Whitecross ym Mharc Technoleg Wrecsam, Tŷ Kingsway, Wrecsam, LL13 7YP, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr , ar 12 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitecross ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau i oddeutu 20,000 o gleifion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitecross yn rhan o Integrated Dental Holdings (IDH), cwmni sy'n rhedeg amryw o bractisau deintyddol ar draws y DU. Mae IDH wrthi'n ail-frandio, ac roedd eu brand newydd nhw - "dentist" - eisoes wedi cael ei gyflwyno yng Nghanolfan Ddeintyddol Whitecross.

Cawsom wybod bod tua 95% o wasanaethau deintyddol Whitecross yn cael eu darparu i gleifion y GIG ar hyn o bryd. Gellir cynnig triniaethau deintyddol ychwanegol dan drefniadau preifat.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys un locwm), un hylenydd deintyddol (sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn yn unig ar hyn o bryd), chwe nyrs ddeintyddol, tri aelod o staff derbynfa (un sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn yn unig), a rheolwr y practis.

Darperir ystod lawn o wasanaethau deintyddol y GIG, ac mae'r triniaethau deintyddol preifat a gynigir yn cynnwys gwynnu dannedd, mewnblaniadau deintyddol, a gwasanaethau hylendid deintyddol.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae Canolfan Ddeintyddol Whitecross yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

**Profiad y Claf**

At ei gilydd, gwelsom fod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Whitecross. Roedd y tîm o staff yn amlieithog, ac felly câi anghenion iaith y cleifion eu diwallu gan fwyaf. Roedd y wybodaeth gyffredinol sydd ar gael i'r cleifion yn dda.

Gwahoddwyd cleifion i roi adborth am y gwasanaeth, ond roeddem o'r farn bod y system bresennol yn anffurfiol ac yn dibynnu ar fod cleifion yn rhoi gwybodaeth i'r practis o'u gwirfodd, a ddigwyddai bob hyn a hyn. Roedd tystiolaeth y gwrandewid ar safbwyntiau'r cleifion a bod rheolwr y practis yn cymryd camau dilynol. Serch hynny, gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu system fwy rheolaidd o gywain barn y cleifion am y gwasanaeth, ac o ddangos sut yr oedd eu safbwyntiau'n cael eu defnyddio i lywio newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.

**Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal**

I grynhoi, roedd safon dda'r cyfleusterau, y cyfarpar, y systemau a'r gweithdrefnau a welsom yn cyfrannu tuag at hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cyffredinol pobl ac yn lleihau'r risg o niwed.

Roedd y cyfleusterau a'r broses ddadheintio (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol) yn ardderchog. Roedd y pedair ystafell driniaeth yn y practis yn lân, yn fawr, ac wedi'u cyflenwi'n dda. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn dynodi bod gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau yn digwydd yn rheolaidd.

Ar y cyfan, roedd safon y drefn o gadw cofnodion yn ardderchog hefyd ac yn gyson ymhlith yr holl ddeintyddion. Gwelsom drefn effeithiol o adolygu gan gymheiriaid a gweithdrefnau archwilio mewnol effeithiol, a oedd yn cyfrannu tuag at gyflawni a chynnal y safon uchel hon.

**Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Gwelsom fod Canolfan Ddeintyddol Whitecross yn bractis trefnus sy'n cael ei reoli'n effeithiol. Gwelsom fod rheolwr y practis ac IDH yn rhagweithiol wrth anelu at wella'r gwasanaeth a chynnal safon dda.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith hefyd gan IDH. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu – a'u diweddaru pan oedd angen – yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru. Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith i ymateb i gwynion. Dywedom wrth y practis y gellid gwella ar hyn ymhellach pe bai eu cofnod cwynion hefyd yn cynnwys cofnod o'r trafodaethau a gafwyd ynghylch unrhyw gwynion neu bryderon anffurfiol a dderbyniwyd.

**Ansawdd yr Amgylchedd**

Roedd ansawdd yr amgylchedd yn dda iawn am i adeilad y practis gael ei godi'n bwrpasol fel meddygfa yn 2006, ac felly mae'n addas at y diben fel deintyddfa. Roedd yr ystafelloedd a'r cyfleusterau cyffredinol sydd ar gael, gan gynnwys lleoedd parcio, ystafelloedd staff a thoiledau, yn dda. Roedd IDH wedi cyflwyno arwyddion a hysbysiadau newydd drwy'r safle, a oedd yn dangos ethos sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd llwch wedi crynhoi mewn rhannau o'r toiledau. Rydym wedi atgoffa'r practis i lynu at y rhaglen lanhau fanwl a oedd yn cwmpasu glendid y toiledau. Roedd pob man arall a welsom yn ystod yr arolygiad yn lân ac wedi'i gynnal yn dda.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**At ei gilydd, gwelsom fod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Whitecross. Roedd y tîm o staff yn amlieithog, ac felly câi anghenion iaith y cleifion eu diwallu gan fwyaf. Roedd y wybodaeth gyffredinol sydd ar gael i'r cleifion yn dda.**

**Gwahoddwyd cleifion i roi adborth am y gwasanaeth, ond roeddem o'r farn bod y system bresennol yn anffurfiol ac yn dibynnu ar fod cleifion yn rhoi gwybodaeth i'r practis o'u gwirfodd, a ddigwyddai bob hyn a hyn. Roedd tystiolaeth y gwrandewid ar safbwyntiau'r cleifion a bod rheolwr y practis yn cymryd camau dilynol.** Serch hynny, gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu system fwy rheolaidd o gywain barn y cleifion am y gwasanaeth, ac o ddangos sut yr oedd eu safbwyntiau'n cael eu defnyddio i lywio'r newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.

Wythnos cyn yr arolygiad, rhoddodd AGIC holiaduron i'r practis i'w dosbarthu i'r cleifion wrth iddynt ddod i mewn ar gyfer eu hapwyntiad. Gwnaethom dderbyn 14 o holiaduron llawn ar fore'r arolygiad, a siarad â phedwar claf pellach yn ystod y dydd.

Dywedodd 13 o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Whitecross a bod tîm y practis yn groesawgar tuag atynt fel arfer. Ychwanegodd rhai o'r cleifion sylwadau cadarnhaol, megis:

> *"Rwy'n fodlon dros ben ar bob agwedd o'r gwasanaeth. Bydded i hynny barhau. Rwy'n hoff iawn o ddiwyg newydd yr adeilad hefyd."*
>
> *"Rydym wedi bod yn derbyn gwasanaeth deintyddol da ac mae'r staff yn ystyriol iawn."*
>
> *"Maen nhw'n bobl gyfeillgar tu hwnt, wastad yn barod eu cymwynas. … Byddwn yn argymell unrhyw un i ddod i'r ddeintyddfa; maen nhw'n wych."*

Dywedodd un claf i'r ddeintyddfa godi tâl arno am iddo ddod i apwyntiad bedair munud yn hwyr, ac y byddai hefyd yn dymuno derbyn glanhad mwy trylwyr o'i ddannedd. Nid oedd awgrym, fodd bynnag, iddo fynegi'r materion hyn i'r practis. Hefyd, mae'r holiaduron yn ddienw, ac felly nid oedd modd inni archwilio'r mater ymhellach. Gwnaethom drafod y sylwadau hyn â rheolwr y practis, a ddywedodd wrthym ei bod hi'n gwneud pob ymdrech i ymateb i

unrhyw bryder a fynegir gan gleifion mewn modd boddhaol. Mae gwybodaeth ar gael i gleifion ynghylch cyrraedd yn hwyr i apwyntiadau neu eu colli, a gellir codi tâl am wneud hyn yn rheolaidd.

Roedd dau o'r cleifion a welsom newydd gofrestru, a dywedodd un ohonynt wrthym fod perthynas wedi argymell y practis iddi. Ei hargraff gyntaf oedd ei bod hi'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd. Ffoniodd claf arall y bore hwnnw a chynigiwyd apwyntiad brys iddo cyn cinio, a werthfawrogwyd ganddo.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis yn disgwyl i daflenni gwybodaeth "dentist" gael eu darparu. Cynigiwn fod gwybodaeth ynghylch apwyntiadau hwyr neu a gollir yn cael ei chynnwys, os nad yw ynddynt yn barod. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth ym mhecyn gwybodaeth cyfredol y practis mewn print bach, a gwnaethom argymell y byddai print mwy bras yn fwy addas. Cytunodd y cyfarwyddwr clinigol o IDH, a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad, i gymryd camau dilynol ar hyn.

Gwelsom fod gan gleifion fynediad at wybodaeth ddefnyddiol, gyda darluniau defnyddiol yn cyd-fynd â rhai ohonynt, ac yn eu plith oedd y triniaethau deintyddol sydd ar gael. Fe'n hysbyswyd y bydd gwybodaeth ac arwyddion yr ail-frandio yn cael eu darparu'n Gymraeg a Saesneg; gwelsom fod gwybodaeth ddwyieithog wedi'i darparu eisoes mewn rhai meysydd, gan gynnwys cwynion, a gwnaethom gydnabod hyn fel arfer da.

Fe’n hysbyswyd bod y deintyddion, gyda'i gilydd, yn medru siarad Sbaeneg, Pwyleg, Hwngareg, Lithwaneg a Rwsieg. Mae un o'r derbynyddion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac felly, yn aml, gall staff sgwrsio â chleifion yn iaith gyntaf y claf. Mae hyn o gymorth mawr wrth ymdrin ag anghenion iaith a chyfathrebu’r cleifion, ac felly mae'n arfer nodedig.

Nid oedd yr holl gleifion yn gwybod sut i ddefnyddio’r gwasanaethau y tu allan i oriau, neu sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, crybwyllodd llawer o'r cleifion nad oeddent yn rhagweld y byddai angen cwyno neu y byddent yn dod o hyd i'r rhifau hyn pe bai angen gwneud hynny. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos yn amlwg yn y practis, ac felly ni wnaethom gynnwys hwn fel "gwelliant sydd ei angen" yn yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth i'r practis, naill ai trwy gyfrwng y ffurflenni adborth sydd ar gael i gleifion yn y practis, neu drwy gyfrwng gwefan IDH. Pan edrychom ar y wefan, gwelsom nad oedd ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r gweithdrefnau cwyno yng Nghymru, ac felly bydd angen diweddaru'r wybodaeth hon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r wybodaeth ynghylch Canolfan Ddeintyddol Whitecross ar wefan IDH gael ei diweddaru i gynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru.***

Edrychom ar sampl o adborth cleifion a dderbyniodd Canolfan Ddeintyddol Whitecross, a oedd yn cynnwys cardiau “Diolch”, ac roedd hwn yn dynodi bod cleifion, at ei gilydd, yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a dderbyniwyd. Er i gleifion gael cyfleoedd i roi eu barn ar y gwasanaeth, gwelsom mai ond rhyw ychydig o ffurflenni adborth a dderbyniwyd yn ystod 2014 ac yn ystod y blynyddoedd blaenorol.  Nid oedd y system gyfrifiadurol ar gael ar y pryd i wirio unrhyw sylwadau a dderbyniwyd trwy gyfrwng y wefan. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis nad oedd system ffurfiol ar waith ar gyfer derbyn adborth gan gleifion.

Yn ogystal, dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod hi'n ymateb i bob adborth a dderbynnir gan glaf, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, drwy alwad ffôn neu lythyr. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn wasanaeth da sy'n dangos bod safbwyntiau cleifion yn cael eu trin yn barchus. Fodd bynnag, am nad oes cofnodion yn cael eu cadw, gwnaethom argymell bod log yn cael ei gadw o'r galwadau ffôn a wneir, neu'r llythyron a anfonir, a bod copïau o lythyron yn cael eu cadw. Bydd hyn o gymorth i reolwr y practis wrth fonitro'r holl adborth a dderbynnir ac unrhyw themâu cyffredin sy'n codi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu system fwy rheolaidd o gywain barn y cleifion am y gwasanaeth. Dylid cofnodi camau dilynol rheolwr y practis a, lle bo'n bosibl, dylai'r adborth cyffredinol a dderbynnir gael ei ystyried wrth wneud newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**I grynhoi, roedd safon dda'r cyfleusterau, y cyfarpar, y systemau a'r gweithdrefnau a welsom yn cyfrannu tuag at hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cyffredinol pobl ac yn lleihau'r risg o niwed.**

**Roedd y cyfleusterau a'r broses ddadheintio (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol) yn ardderchog. Roedd y pedair ystafell driniaeth yn y practis yn lân, yn fawr, ac wedi'u cyflenwi'n dda. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn dynodi bod gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau'n digwydd yn rheolaidd.**

**Ar y cyfan, roedd safon y drefn o gadw cofnodion yn ardderchog hefyd ac yn gyson ymhlith yr holl ddeintyddion. Gwelsom drefn effeithiol o adolygu gan gymheiriaid a gweithdrefnau archwilio mewnol effeithiol, a oedd yn cyfrannu tuag at gyflawni a chynnal y safon uchel hon.**

### <u>Cyfarpar a dogfennaeth radiograffeg (pelydr-X)</u>

Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, ac roedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol a manylion archwiliadau radiograffeg; cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf yn ystod 2014. Roedd tystysgrifau cynnal a chadw dilys ar gyfer pob darn o gyfarpar radiograffig a ddefnyddir yn y practis. Proseswyd radiograffau'n awtomatig, a gwelsom fod eu hansawdd, a oedd yn cael ei raddio gan y deintyddion, yn dda. Roedd cofnodion cleifion yn cynnwys y cyfiawnhad ar gyfer cynnal radiograffau ac adroddiad o'r canfyddiadau.

Roedd pob ystafell driniaeth yn cynnwys peiriant pelydr-X, a gwelsom fod arwyddion priodol wedi'u harddangos y tu allan i'r mannau hyn. Gwnaethom awgrymu bod diagram ysgrifenedig o'r ystafelloedd triniaeth, sy'n nodi'r man a reolir wrth gymryd radiograffau, yn cael ei ychwanegu i'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, a chytunodd rheolwr y practis i'w gwblhau. Roedd y rheolau lleol, sy'n cynnwys y cyfarwyddiadau gweithio a'r cyfrifoldebau allweddol a fwriedir i leihau datguddio i ymbelydredd, wedi cael eu symud dros dro o'r ystafelloedd triniaeth yn dilyn gwaith ailaddurno diweddar. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai'r rhain yn cael eu gosod yn ôl yn yr ystafelloedd triniaeth unigol.

Hefyd, roedd peiriant OPG gan y practis mewn ystafell benodedig. Mae'r peiriant OPG yn galluogi deintyddion i gymryd radiograff panoramig o'r genau uchaf ac isaf. Gall hyn fod o fudd os cynhelir llawdriniaethau'r geg, mewnblaniadau, neu waith orthodonteg yn y practis. Gwnaed hyfforddiant gan y deintyddion, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, a hynny o fewn y pum mlynedd diwethaf (fel yr argymhellir

gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol). Roedd tystysgrifau hyfforddiant tri o'r deintyddion ar gael i ni fwrw golwg arnynt. Ond roedd deintydd locwm wedi dechrau gweithio yno yn y mis diwethaf, a dylai'r practis gael copi o'i dystysgrif cyn gynted â phosibl.

**Dadebru a chymorth cyntaf**

Dynodwyd bod dau o'r aelodau staff yn swyddogion cymorth cyntaf a'u bod wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf yn 2014, a gwelsom dystysgrifau i ategu hyn. Derbyniom gadarnhad bod holl staff y practis wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR), fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru. Gwelsom sampl o'r tystysgrifau hyfforddiant CPR mwyaf diweddar, dyddiedig Medi 2014.

Roedd gan y practis offer dadebru digonol, ac roedd tystiolaeth bod hwn yn cael ei archwilio'n ddyddiol. Gwelsom fod meddyginiaethau brys ar gael hefyd a bod system ar waith i wirio'u dyddiadau dod i ben.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd contractau ar waith ar gyfer casglu a gwaredu â gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei waredu yn y bagiau a'r biniau priodol, fesul lliw. Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu ei bod hi wedi gofyn i'r landlord osod clwyd lle cedwir y biniau allanol, er diben diogelwch. Gwnaethom fwrw golwg ar yr ardal hon a gweld ei bod wedi'i chloi ond nad oedd cyfleuster storio ychwanegol. Roedd y biniau gwastraff clinigol o faint a fyddai'n ei gwneud hi'n bosib i'w cludo ymaith oddi ar y safle.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried pa gamau diogelwch ychwanegol sydd eu hangen i atal, neu leihau'r risg, bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu hymyrryd â nhw neu'n cael eu cludo ymaith o'r safle.***

**Proses ddadheintio (glanhau a sterileiddio)**

At ei gilydd, canfuom fod y cyfleusterau a'r broses ddadheintio'n ardderchog. Roedd yna ystafell ddadheintio bwrpasol a oedd yn cynnwys cyfleusterau addas i olchi dwylo, dwy sinc ar gyfer golchi a rinsio offer, peiriant dadheintio a golchi (sy'n arfer delfrydol, ond, ar adeg ein hymweliad, nid oedd yr uned newydd wedi cael ei haddasu eto i'w defnyddio), dau faddon uwchsonig, a dau awtoclaf (unedau sterileiddio) gwahanol.

Roedd system rota ar waith i sicrhau bod nyrs ddeintyddol benodedig ar gael i gynnal y broses ddadheintio bob diwrnod gwaith. Unwaith eto, roedd yr arfer hwn yn ddelfrydol er mwyn hyrwyddo arferion gwaith diogel a chynnal cymhwysedd yn y maes hwn.

**Cyfleusterau clinigol**

Gwnaethom fwrw golwg ar y pedair ystafell driniaeth a gweld bod y rhain yn lân, yn fawr, ac â chyflenwad da o offer deintyddol. Roedd yr arwynebau gwaith a'r lloriau'n hawdd i'w glanhau ac yn ymddangos mewn cyflwr da. Roedd yr arwynebau gwaith wedi'u selio ar yr ymylon, sy'n helpu i atal baw a llwch rhag cronni. Roedd gorchuddiau ar gael ar gyfer bysellfyrddau'r cyfrifiaduron, i helpu i gadw'r bysellfwrdd yn lân ac yn ddi-haint. Serch hynny, gwelsom mai ond un bysellfwrdd oedd wedi'i orchuddio dros amser cinio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Atgoffir deintyddion i ddefnyddio gorchudd diogelwch ar gyfer bysellfyrddau'r cyfrifiaduron bob amser.***

Defnyddiai'r practis y system “In Safe” ar gyfer cael gwared ar nodwyddau a ddefnyddiwyd. Gwelsom fod hon yn system effeithiol er mwyn lleihau’r perygl o anafiadau gan offer miniog.

Ar adeg ein harolygiad, ni welsom dystiolaeth bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cywasgydd. Fodd bynnag, cysylltodd rheolwr y practis â ni ddiwrnod ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal gan y nyrsys deintyddol a bod cofnod o'r rhain yn cael ei gynnal ar y cyd â'r gwiriadau dyddiol eraill a wneir. O ystyried y safonau uchel cyffredinol a welwyd yn ystod yr arolygiad, rydym yn hyderus bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y cywasgydd, er y buaswn yn disgwyl gweld tystiolaeth ar ffurf cofnod yn ystod arolygiad yn y dyfodol.

**Cadw cofnodion**

Edrychom drwy sampl ar hap o bedwar cofnod fesul deintydd, gan ystyried 16 cofnod i gyd. Ar y cyfan, cawsom fod ansawdd y drefn o gadw cofnodion yn ardderchog. Roedd pob un o'r deintyddion yn ysgrifennu cofnodion manwl, llawn gwybodaeth, ac yn diweddaru hanes meddygol y cleifion gyda phob ymweliad. Ceid tystiolaeth amlwg o gynllunio gofal, ac o drafodaethau ar y triniaethau sydd ar gael a'r risgiau a'r manteision i'r claf. Gwelsom fod pob claf yn derbyn cynllun triniaeth.

O ddarllen rhai o'r cofnodion, roeddem hefyd yn gallu gweld bod cleifion yn derbyn cyngor ar iechyd cyffredinol y geg, ar roi'r gorau i smygu, ar sgrinio am

ganser, ac ar ddeiet, a oedd yn arfer da iawn ac yn unol â'r argymhellion ar gyfer deintyddion.

Gwnaethom gynnig y byddai'r cofnodion ar eu hennill pe bai sgrin gwybodaeth sylfaenol y claf yn cynnwys y risg o ganser, hanes cymdeithasol ychwanegol (er enghraifft, p'un a yw'r claf yn smygu ai peidio a faint o alcohol a yf), ac erbyn pryd y dylid cynnal y radiograff nesaf, gan alluogi'r deintyddion i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn gyflym.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod Canolfan Ddeintyddol Whitecross yn bractis trefnus sy'n cael ei reoli'n effeithiol. Gwelsom fod rheolwr y practis ac IDH yn rhagweithiol wrth anelu at wella'r gwasanaeth a chynnal safon dda.**

**Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith hefyd gan IDH. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu – a'u diweddaru pan oedd angen – yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru. Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith i ymateb i gwynion. Dywedom wrth y practis y gellid gwella ar hyn ymhellach pe bai eu cofnod cwynion hefyd yn cynnwys cofnod o'r trafodaethau a gafwyd ynghylch unrhyw gwynion neu bryderon anffurfiol a dderbyniwyd.**

Sefydlwyd Canolfan Ddeintyddol Whitecross gan IDH yn 2006. Rheolwr y practis sy'n goruchwylio rheolaeth y practis, ac mae wedi gweithio yn y practis ers ei agor (gan ddechrau fel nyrs ddeintyddol). Fe'i penodwyd i rôl rheolwr y practis tua 12 mis cyn ein harolygiad.

Roedd un o gyfarwyddwyr clinigol y cwmni dros Gymru hefyd yn bresennol yn ystod yr arolygiad, er mwyn cael dealltwriaeth well o broses arolygu AGIC ac i ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gennym ar gyfer Whitecross ac, os yw'n berthnasol, ar gyfer practisau deintyddol eraill IDH yng Nghymru.

Roedd tystiolaeth bod staff yn cael eu cefnogi'n dda, yn fewnol o fewn y practis ac o fewn strwythur rheoli cyffredinol IDH. Canmolodd rheolwr y practis y gefnogaeth a'r cyngor sydd ar gael drwy'r sefydliad. Roedd yr holl staff yn gyfeillgar ac yn agored tuag atom. Canmolwyd y staff gan y cleifion a welsom yn ystod ein harolygiad.

Canfuom fod rheolwr y practis yn drefnus ac wedi datblygu rhestrau gwirio a ffurflenni hapwiriadau i'w cynorthwyo i fonitro safonau. Roedd rheolwr y practis wedi gweithredu mesurau gwobrwyol, megis gwobr “tocyn aur” am gadw cofnodion yn dda, a oedd wedi bod yn boblogaidd ymhlith y staff, meddai.

Cynhelid cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a darllenom rai o'r cofnodion, a oedd yn cynnwys digon o fanylion ac yn dynodi bod tîm y practis yn dysgu ac yn datblygu yn barhaus. Cedwid ffeil hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff, ac roedd rheolwr y practis wedi datblygu matrics hyfforddiant ar gyfer pob un. Gwelsom fod system effeithiol ar gyfer monitro cynnydd yn natblygiad proffesiynol parhaus y staff.

Roedd gan IDH gyfres o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a oedd yn cwmpasu'r holl feysydd yr oeddem yn eu harolygu. O gymharu â'n harolygiadau o rai o bractisau eraill IDH yng Nghymru, gwelsom welliant yn yr ystyr bod rhai polisïau wedi cael eu hadolygu yn y cyfamser ac yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru. Serch hynny, roedd dal angen diweddaru rhyw ddyrnaid o'r rhain, fel gweithdrefn chwythu'r chwiban, lle cyfeiriwyd staff at y rheoleiddiwr yn Lloegr, sef y Comisiwn Ansawdd Gofal, yn hytrach nag at y sefydliadau perthnasol yng Nghymru, megis AGIC. Fe'n hysbyswyd bod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu polisïau a gweithdrefnau IDH, ac y byddant yn parhau i ddiweddaru'r rhain fel y bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau yng Nghymru.

Cawsom wybod bod cofnod o gwynion yn cael ei gadw'n electronig. Nid oeddem yn gallu gweld y cofnod ar ddiwrnod yr arolygiad am nad oedd y system ar gael dros dro. Fodd bynnag, edrychom ar y ffeil cwynion, a oedd yn cynnwys copïau o ohebiaeth a oedd yn ymwneud â chwynion. Cawsom fod y cwynion hyn wedi derbyn ymateb priodol ac wedi eu harchwilio'n briodol. Gwelsom hefyd fod yr ymatebion wedi cael eu hysgrifennu'n sensitif, gan ddynodi bod y cwynion yn cael eu trin yn ddifrifol gan y sefydliad ac mai'r nod oedd eu datrys yn foddhaol, lle bo'n bosibl. Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu ei bod hi hefyd yn ymateb i sylwadau na arweiniodd at gŵyn swyddogol gan y claf, er enghraifft drwy alwad ffôn neu drafodaethau wyneb yn wyneb, sydd fel arfer yn digwydd ar yr un diwrnod. Nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Er mwyn gwella ymhellach eu proses o ddelio â chwynion, dylai ein hargymhelliad blaenorol yn adran Profiad y Claf yr adroddiad hwn (tudalen 9) gynnwys hefyd log o drafodaethau a gynhelid ynghylch cwynion neu bryderon anffurfiol. Bydd hyn o gymorth i nodi unrhyw themâu cyffredin sy'n codi ac i ystyried y camau gweithredu posibl i leihau pryderon tebyg.***

Wrth drafod â rheolwr y practis ac wrth fwrw golwg ar sampl o ffeiliau staff, gwelsom fod archwiliadau recriwtio addas wedi cael eu cynnal cyn bod rhywun yn dechrau yn y swydd. Mae staff yn ymgymryd â rhaglen sefydlu o 12 wythnos a chyfnod prawf, fel y gwelsom ar gyfer yr aelod o staff a benodwyd yn fwyaf diweddar. Polisi IDH yw diweddaru gwiriadau datgelu a gwahardd y staff bob tair blynedd, sy'n unol ag arfer da.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd ansawdd yr amgylchedd yn dda iawn am i adeilad y practis gael ei godi'n bwrpasol fel meddygfa yn 2006, ac felly mae'n addas at y diben fel deintyddfa. Roedd yr ystafelloedd a'r cyfleusterau cyffredinol sydd ar gael, gan gynnwys lleoedd parcio, ystafelloedd staff a thoiledau, yn dda. Roedd IDH wedi cyflwyno arwyddion a hysbysiadau newydd drwy'r safle, a oedd yn dangos ethos sy'n canolbwyntio ar y claf.**

**Roedd llwch wedi crynhoi mewn rhannau o'r toiledau. Rydym wedi atgoffa'r practis i lynu at y rhaglen lanhau fanwl a oedd yn cwmpasu glendid y toiledau. Roedd pob man arall a welsom yn ystod yr arolygiad yn lân ac wedi'i gynnal yn dda.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitecross ym Mharc Technoleg Wrecsam. Agorwyd yr unedau masnachol yn 2006, ac adeiladwyd y practis yn bwrpasol, fel meddygfa yn wreiddiol ac yna fe'i prynwyd gan IDH i fod yn ddeintyddfa.

Mae digon o leoedd parcio o amgylch yr unedau, ond gwelsom fod y rhan fwyaf o lefydd a oedd agosaf at Ganolfan Ddeintyddol Whitecross yn llawn yn ystod y dydd. Roedd dau o'r lleoedd parcio y tu allan i'r practis wedi'u dynodi ar gyfer pobl anabl.

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitecross wedi'i lleoli ar y llawr daear. Roedd ramp a goleddf bychan yn arwain at yr adeilad. Roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, ond gwnaethom awgrymu y byddai'n werth ystyried gosod drws awtomatig wrth ddatblygu yn y dyfodol, i alluogi defnyddwyr cadair olwyn i gael mynediad.

Roedd y practis wedi'i rannu rhwng derbynfa fawr/ystafell aros a choridor a oedd yn arwain at y pedair ystafell driniaeth. Er ei fod yn bractis prysur, canfuom fod digon o gadeiriau yn yr ystafell aros ar gyfer y cleifion. Roedd swyddfa rheolwr y practis y tu ôl i'r dderbynfa, ac felly roedd modd cynnal sgyrsiau ffôn neu wyneb yn wyneb gyda chleifion yn gyfrinachol.

Roedd gan staff a chleifion fynediad i doiled dynion, merched ac anabl. Er bod safon y glendid yn y practis a'r ystafelloedd triniaeth yn dda, roedd rhai o'r gosodiadau yn y toiledau wedi'u gorchuddio â haenen o lwch. Roedd y llawr wedi'i staenio mewn un toiled. Gwelsom fod rhaglen lanhau IDH yn fanwl ac yn cwmpasu glendid y toiledau'n ddigonol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell y practis i sicrhau bod y rhaglen lanhau yn cael ei dilyn ym mhob rhan o'r adeilad, gan gynnwys y toiledau.***

Tynnwyd yr arwyddion dim smygu ymaith dros dro yn dilyn gwaith ailaddurno'n ddiweddar; cytunodd rheolwr y practis i'w gosod yn ôl. Gwelsom fod yr arwyddion cyffredinol yn dda ac yn cyfeirio cleifion o'r ystafelloedd triniaeth yn ôl i'r dderbynfa, ac yn rhoi ffeithiau a ffigurau diddorol am iechyd deintyddol. Dywedodd cyfarwyddwr clinigol IDH wrthym fod yr arwyddion wedi'u dewis yn ofalus, gyda'r nod o ymlacio cleifion a'u gwneud yn gartrefol pan fyddant yn ymweld â'r deintydd. Roedd yr amgylchedd felly'n hwyluso ethos sy'n rhoi pwyslais ar y claf.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Whitecross yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Whitecross, Wrecsam

## Dyddiad yr arolygiad: 12 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 9 | **Dylai'r wybodaeth ynghylch Canolfan Ddeintyddol Whitecross ar wefan IDH gael ei diweddaru i gynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru.**<br><br>(Safon Iechyd a Gofal 3.2) | Mae'r Tîm Cydymffurfio yng Nghanolfan Gymorth (Prif Swyddfa) IDH yn gweithio gyda thîm marchnata'r cwmni er mwyn i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru gael eu darparu ar y wefan. Fel rhan o'r broses o ail-frandio, mae'r cwmni'n cau gwefan IDH a bydd gwefan newydd, "dentist", sydd eisoes yn fyw, yn ei disodli. www.mydentist.co.uk/home.<br><br>Bydd y wybodaeth ynghylch y broses gwynion yng Nghymru ar gael ar y wefan newydd erbyn 6 Gorffennaf 2015. Bydd modd i gleifion gael gafael ar y wybodaeth am weithdrefnau cwyno drwy glicio ar *"Patient Information"* ac yna ar | Tîm Cydymffurfio | 6/07/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | *"Customer Feedback"*, ac yna bydd tab ar wahân ar gyfer cleifion o Gymru gyda dolen at weithdrefn gwyno'r cwmni, sy'n dilyn canllawiau "Gweithio i Wella". | | |
| 9 | *Gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu system fwy rheolaidd o gywain barn y cleifion am y gwasanaeth. Dylid cofnodi camau dilynol rheolwr y practis a, lle bo'n bosibl, dylai'r adborth cyffredinol a dderbynnir gael ei ystyried wrth wneud newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.*<br><br>(Safon Iechyd a Gofal 6.3) | Bydd rheolwr y practis yn sicrhau bod mwy o ffurflenni adborth i gleifion yn y dderbynfa ac ar gael mewn tri lle gwahanol yn y practis trwyddo draw.<br><br>Bydd rheolwr y practis yn cynnal cyfarfod practis ac yn sicrhau bod y staff a'r clinigwyr i gyd yn bwrw ati i gywain adborth ac yn dosbarthu/casglu ffurflenni adborth gan gymaint o gleifion â phosibl. Bydd staff y dderbynfa yn dosbarthu ffurflenni adborth i bob claf pan fydd yn cyrraedd y dderbynfa ar gyfer ei apwyntiad. Cesglir y ffurflenni adborth hyn oddi wrth y cleifion ar ôl eu hapwyntiad.<br><br>Bydd rheolwr y practis hefyd wrthi'n weithgar yn siarad â chleifion ar hap ynghylch y gwasanaeth a ddarperir, ac yn cofnodi hyn bob wythnos.<br><br>Bydd rheolwr y practis yn crynhoi ac yn dadansoddi'r ffurflenni adborth, a chaiff y gwersi a ddaw o'r adborth ei fwydo'n ôl i'r tîm yn ystod cyfarfodydd misol y practis, a'i gofnodi yng | Rheolwr y Practis | I'w weithredu erbyn 30.06.2015 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | nghofnodion y cyfarfod. Rhennir y canlyniadau gyda'r cleifion a chânt eu harddangos yn yr ystafell aros.<br><br>Asesir unrhyw welliannau neu newidiadau a gynigir yn yr adborth, a lle bo'n briodol, fe'u gweithredir.<br><br>Mae'r practis hefyd yn anfon neges destun i gleifion sydd â ffôn symudol gydag arolwg sy'n rhoi cyfle iddynt adael adborth ar raddfa o 1 i 5 (1 yn wael, 5 yn ardderchog). Fel rhan o'r arolwg, mae modd i gleifion hefyd adael sylwadau, hyd at nifer benodol o lythrennau. Mae rheolwr y practis yn mewngofnodi ar patientcomms.co.uk i weld y data. Mae'r wefan hon yn galluogi rheolwr y practis i gael mynediad at ddangosfwrdd y data a'r arolygon ac i weld sgoriau unigol ac unrhyw sylwadau a wnaed. Bydd rheolwr y practis yn gwirio'r data hyn bob wythnos. Trafodir y sgoriau ym mhob cyfarfod practis.<br><br>Bydd rheolwr y practis yn creu ffolder adborth claf i gofnodi pob math o adborth megis rhai ar lafar/dros y ffôn ac mewn llawysgrifen ar ffurflenni adborth. Cynhwysir adran yn y ffeil ar gamau dilynol, er mwyn dilyn trywydd y mater a | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | chofnodi dyddiadau ymateb. Bydd hyn yn caniatáu i reolwr y practis fonitro holl adborth cleifion ynghyd, fel y gellir gwneud gwelliannau. Bydd rheolwr y practis yn gwirio'r ffeil ac NHS Choices yn wythnosol i sicrhau bod popeth wedi cael ei ymdrin ag ef ac wedi derbyn ymateb yn unol â pholisi delio â chwynion y cwmni.<br><br>Yn ogystal, bydd rheolwr y practis yn parhau i gofnodi'r holl gwynion/adborth ar system gwynion electronig y cwmni, a reolir gan dîm Cymorth Cleifion y cwmni. Bydd hyn yn caniatáu i reolwr y practis gadw log cronolegol o gwynion, gan gynnwys y math o gŵyn/adborth. Mae'r system hon yn rhoi cyfle i reolwr y practis lanlwytho copïau o lythyrau cwyno, ymatebion a ffurflenni adborth er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 11 | **Dylai'r practis ystyried pa gamau diogelwch ychwanegol sydd eu hangen i atal, neu leihau'r risg, bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu hymyrryd â nhw neu'n cael eu cludo ymaith o'r safle.** | Mae rheolwr y practis eisoes mewn cyswllt â'r landlord mewn perthynas â diogelwch y biniau y tu allan. Mae'r landlord yn bwriadu rhoi gât gloëdig wrth ochr yr adeilad, codi ffens yr holl ffordd o amgylch, a sicrhau uned ddiogel fwy o faint i gynnwys yr holl wastraff masnachol a | Rheolwr y Practis | 18/09/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (Safon Iechyd a Gofal 2.4) | chlinigol.<br>Gallai gymryd peth amser i'r landlord gwblhau hyn, ac felly yn y cyfamser mae rheolwr y practis wedi trefnu gyda'r Tîm Cyfleusterau bod contractiwr yn dod i roi tsiaen o amgylch y biniau gwastraff clinigol a'u clymu i'r wal, rhag i rywun ymyrryd â nhw neu eu cludo ymaith. | Rheolwr y Practis | 18/07/15 |
| 12 | **Atgoffir deintyddion i ddefnyddio gorchudd diogelwch ar gyfer bysellfyrddau'r cyfrifiaduron bob amser**. **.**<br>(Safon Iechyd a Gofal 2.4) | Bydd rheolwr y practis yn cynnal cyfarfod practis i ategu pwysigrwydd defnyddio gorchuddion ar gyfer bysellfyrddau'r cyfrifiaduron bob amser. Archebir gorchudd ar unwaith ar gyfer bysellfyrddau sydd heb orchudd. Bydd rheolwr y practis yn cynnal hapwiriadau bob wythnos i sicrhau bod gorchuddion bysellfyrddau'n cael eu defnyddio bob amser. | Rheolwr y Practis | 17/06/15 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 15 | *Er mwyn gwella ymhellach eu proses o ddelio â chwynion, dylai ein hargymhelliad blaenorol yn adran Profiad y Claf yr adroddiad hwn (tudalen 9) gynnwys hefyd log o drafodaethau a gynhelid ynghylch cwynion neu bryderon anffurfiol. Bydd hyn o gymorth i nodi unrhyw* | Fel y crybwyllwyd eisoes yn adran Profiad y Claf, bydd rheolwr y practis yn sicrhau bod cwynion/adborth cleifion yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod practis a byddant yn nodwedd reolaidd yn agenda'r cyfarfod. Bydd y canfyddiadau'n cael eu logio yng nghofnodion y cyfarfod a bydd unrhyw gamau gweithredu sy'n | Rheolwr y Practis | 30/06/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | *themâu cyffredin sy'n codi ac i ystyried y camau gweithredu posibl i leihau pryderon tebyg.*<br>(Safon Iechyd a Gofal 6.3) | deillio o gwynion/adborth yn cael eu cofnodi yn system gwynion electronig y cwmni.<br>Gweithredir ar unrhyw themâu cyffredin, i'w hatal rhag digwydd yn y dyfodol. | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 16 | **Gwnaethom argymell y practis i sicrhau bod y rhaglen lanhau yn cael ei dilyn ym mhob rhan o'r adeilad, gan gynnwys y toiledau.**<br>(Safon Iechyd a Gofal 2.4) | Bydd rheolwr y practis yn cynnal cyfarfod un-i-un gyda'r glanhawr i drafod mater y llwch yn y toiledau. Bydd rheolwr y practis yn cyflwyno rhestr wirio ddiweddaredig i'r glanhawr, yn unol â disgrifiad swydd y glanhawr gyda'r cwmni. Bydd rheolwr y practis yn sicrhau bod hapwiriadau'n cael eu cynnal gan y tîm yn y toiledau a'r mannau cymunedol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân bob amser. | | 22/06/15 |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Mrs Anna-Jayne Lewis**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **18/06/15**